Llais

Ieuenctid Ar-lein

# Gwybodaeth i rieni a gofalwyr

## Beth mae Diogelwch Plant Ar-lein yn ei olygu?

Yma yn yr NSPCC, mae ein gwaith i gadw plant yn ddiogel ar-lein yn canolbwyntio ar sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn gwbl ganolog i bopeth rydyn ni'n ei wneud. Mae gan genhedlaeth heddiw brofiad uniongyrchol o fod ar-lein, ond dydyn nhw ddim yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am y byd ar-lein.

Fel rhan o'r broses o roi pobl ifanc wrth galon ein gwaith, rydyn ni'n awyddus i recriwtio grŵp o hyd at 20 person ifanc i fwrw ymlaen â'r gwaith allweddol rydyn ni'n ei wneud. Mae hyn yn cynnwys siarad â phobl sy'n gwneud penderfyniadau am y byd ar-lein, dylanwadu ar ddeddfau a rheoliadau, ac edrych ar atebion i'r tueddiadau niweidiol presennol a welir ar-lein.

Drwy fod yn rhan o grŵp Llais Ieuenctid Ar-lein, bydd pobl ifanc yn cael cyfle i drafod y problemau maen nhw'n eu hwynebu ar-lein ac i alw am newid.



## Beth yw Llais Ieuenctid Ar-lein?

Mae Llais Ieuenctid Ar-lein yn grŵp o bobl ifanc sy'n frwd dros gadw pobl ifanc yn ddiogel ar-lein. Bydd y grŵp yn ein helpu i roi llwyfan i leisiau a phrofiadau plant er mwyn helpu i gadw eraill yn ddiogel ar-lein.

Mae'r grŵp yn dod â hyd at 20 o bobl ifanc at ei gilydd i ddarparu cynrychiolaeth ar lefel sefydliadol ar gyfer gwaith yr NSPCC ym maes Diogelwch Plant Ar-lein, i gwrdd â phenderfynwyr allweddol, ac i rannu eu profiadau a'u barn am ddiogelwch ar-lein er mwyn sbarduno newid. Bydd Llais Ieuenctid Ar-lein yn cynnwys pobl ifanc 12-15 oed, gyda chynrychiolaeth o holl wledydd y DU. Byddan nhw'n cwrdd yn rheolaidd rhwng mis Mehefin 2026 a mis Rhagfyr 2027.

Os bydd eich plentyn yn llwyddo i ymuno â Llais Ieuenctid Ar-lein, gofynnir i chi am ganiatâd i'ch plentyn ddod i'r digwyddiadau canlynol (bydd yr holl fanylion a'r dyddiadau'n cael eu rhannu cyn pob digwyddiad):

- Digwyddiadau preswyl ar benwythnosau mewn gwahanol leoliadau yn y DU (bydd yr NSPCC yn talu'r treuliau a'r costau teithio).
- Cyfarfodydd ar-lein (ar lwyfannau fideoalwad) gydag aelodau eraill Llais Ieuenctid Ar-lein, a gynhelir gan staff yr NSPCC.
- Cyfarfodydd gydag ymddiriedolwyr yr NSPCC ac aelodau eraill o staff, wyneb yn wyneb neu ar-lein.
- Cynadleddau a digwyddiadau eraill yr NSPCC.
- Digwyddiadau allanol i bobl ifanc.

Disgwylir y bydd rhiant neu ofalwr yn mynd gyda'r person ifanc i ddigwyddiadau cymaint â phosibl (darperir trefniadau teithio a llety).



## Sut byddwn ni'n helpu'r bobl ifanc yn y grŵp

Gallai rhai o'r pynciau y byddwn yn eu trafod gyda grŵp Llais Ieuenctid Ar-lein fod yn sensitif, a bydd staff yr NSPCC yn rhoi cefnogaeth i'r bobl ifanc ar gyfer hynny. Dyma rai o'r camau y byddwn yn eu cymryd i gefnogi'r bobl ifanc:

- Byddwn bob amser yn rhoi rhybudd ymlaen llaw i rieni, gofalwyr a'r bobl ifanc ynglŷn â'r pynciau rydyn ni'n bwriadu eu trafod.
- Byddwn bob amser yn parchu hawl pobl ifanc i beidio â chymryd rhan mewn trafodaethau fel maen nhw'n dymuno.
- Byddwn yn treulio amser yn edrych ar bynciau sy'n debygol o godi gyda'r bobl ifanc yn unigol pan fyddan nhw'n ymuno â Llais Ieuenctid Ar-lein, a byddwn yn rhoi cynllun llesiant ar waith ar gyfer eu cyfnod yn y grŵp.
- Mae'r holl staff sy'n cynnal y sesiynau wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf, ac wedi cael archwiliad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Maen nhw hefyd yn gallu cael cymorth ychwanegol drwy Childline os bydd angen.

## Beth fydd rhaid i'ch plentyn ei wneud

Os bydd eich plentyn yn dod yn aelod o grŵp Llais Ieuenctid Ar-lein, bydd yn:

- Ymuno â sesiynau a gweithdai ar-lein bob yn ail fis gyda gweddill aelodau Llais Ieuenctid Ar-lein. Bydd rhai sesiynau'n cael eu cynnal wyneb yn wyneb ond bydd y rhan fwyaf yn cael eu cynnal ar-lein.
- Rhannu ei farn a'i syniadau gyda phenderfynwyr allweddol yn yr NSPCC, ac arweinwyr diwydiant yn y byd ar-lein.
- Gweithio gyda gweddill aelodau Llais Ieuenctid Ar-lein i hyrwyddo barn pobl ifanc am y byd ar-lein ym mhob rhan o waith yr NSPCC ym maes Diogelwch Plant Ar-lein.
- Cael hyfforddiant i ddatblygu llawer o sgiliau pwysig fel ymgyrchu, siarad yn gyhoeddus, a gwaith tîm.
- Cynrychioli Llais Ieuenctid Ar-lein mewn digwyddiadau cyffrous gyda llawer o bobl sydd â diddordeb mewn diogelwch ar-lein.
- Cwrdd â rhai o dimau eraill yr NSPCC er mwyn helpu i wneud y byd ar-lein yn fwy diogel.
- Deall tueddiadau newydd sy'n dod i'r amlwg a gweithio fel tîm i ddatblygu cyngor a gwybodaeth am dueddiadau niweidiol.

## Mae angen pobl ifanc arnom ni sydd:

- Rhwng 12 a 15 oed.
- Â diddordeb mewn cadw pobl ifanc yn ddiogel ar-lein.
- Yn barod i wrando ar eraill a pharchu eu barn.
- Yn fodlon gweithio gydag eraill a grwpiau lleol.
- Yn fodlon gwneud eu gorau glas i gyfrannu at grŵp Llais Ieuenctid Ar-lein.
- Yn gallu mynychu pob cyfarfod a gweithdy ar-lein.

## Beth yw'r ymrwymiad?

- Mynd i bob cyfarfod ar-lein ac wyneb yn wyneb, gan gynnwys digwyddiadau preswyl wyneb yn wyneb. Bydd y rhan fwyaf o'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar-lein bob yn ail fis, a hynny'n gynnar fin nos ac ni fyddant yn para mwy na dwy awr.
- Manteisio ar bob cyfle i gynghori'r NSPCC ar y materion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc ar-lein.
- Dweud eu barn wrth yr NSPCC am yr hyn mae'r sefydliad yn ei wneud, a beth allwn ni fod yn ei wneud yn well i blant a phobl ifanc yn y byd ar-lein.
- Cwrdd ag arweinwyr y diwydiant ar-lein a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn yr NSPCC i godi ymwybyddiaeth a dylanwadu ar y byd ar-lein.
- Rydyn ni eisiau sicrhau pob rhiant a gofalwr y bydd y bobl ifanc bob amser yn cael eu cefnogi'n llawn yn y prosiectau hyn, ac na fyddai byth disgwyl iddyn nhw wneud unrhyw beth nad ydyn nhw'n teimlo'n gyfforddus yn ei wneud.
- Cofiwch fod rhai cyfleoedd a digwyddiadau yn gallu cael eu cynnal yn ystod oriau ysgol, a'i bod yn bosibl y bydd angen i chi ofyn am ganiatâd yr ysgol er mwyn i'ch plentyn gael mynd iddynt.



## Beth fydd pobl ifanc yn ei gael o wneud hyn?

Fel aelod o grŵp Llais Ieuenctid Ar-lein, bydd pobl ifanc yn cael cyfle i deithio ar hyd a lled y wlad i gymryd rhan mewn digwyddiadau preswyl, diwrnodau 'cwrdd i ffwrdd', cyfarfodydd, ymgynghoriadau, a gweithdai. Bydd pobl ifanc eraill, ymddiriedolwyr yr NSPCC, staff, gwleidyddion, a phobl sy'n gwneud penderfyniadau yn gwrando ar eu safbwyntiau. Byddan nhw'n cael eu hyfforddi a'u cefnogi i gasglu safbwyntiau plant a phobl ifanc eraill, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau. Ac yn bwysicach na dim, byddan nhw'n cwrdd â phobl ifanc eraill ac yn cael llawer o hwyl gyda'i gilydd.

## Faint fydd hyn yn ei gostio?

Bydd yr NSPCC yn talu costau teithio, llety a threuliau rhesymol ar gyfer cyfarfodydd rhanbarthol a chenedlaethol. Byddwch chi'n cael gwybod cyn dod i gyfarfod am beth y byddwn ni'n talu.

## Y camau nesaf a rhagor o wybodaeth

Bydd angen i'ch person ifanc lenwi ffurflen gais erbyn 22 Mai 2026, a bydd angen i chi lenwi'r ffurflen gysylltiedig sy'n gofyn am ganiatâd rhiant.
Mae'r ddwy ffurflen ar gael yma.

Os oes gennych ragor o gwestiynau, cysylltwch ag:
**YouthCSOSolutions@NSPCC.org.uk**

## Amddiffyn Plant

Mae'r NSPCC wedi ymrwymo i amddiffyn plant a phobl ifanc, ac i greu diwylliant gwaith lle mae plant a phobl ifanc yn cael eu gwerthfawrogi a'u diogelu.
Mae gan yr NSPCC bolisi a gweithdrefnau amddiffyn plant, ac mae disgwyl i'r holl staff eu dilyn. Er mwyn creu amgylchedd diogel i blant a staff lle mae arferion gwael yn cael eu herio, mae'r camau canlynol yn cael eu cymryd:

- Mae'r holl staff yn cael eu harchwilio gan yr heddlu, ac mae geirdaon yn cael eu defnyddio i wneud yn siŵr bod staff yn addas.
- Mae'r holl staff wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf.
- Mae'r holl staff yn cael eu goruchwylio a'u cefnogi yn eu gwaith.
- Mae'r holl staff yn gweithio'n unol â gweithdrefnau amddiffyn plant yr NSPCC, ac mae'r rhain yn cael eu hadolygu a'u diweddaru yn ôl yr angen.
- Mae'r holl staff yn derbyn hyfforddiant mewn amddiffyn plant ar lefel sy'n briodol i'w sefyllfa gwaith.
- Gall yr holl staff leisio pryderon ynghylch arferion gwael neu beryglus drwy weithdrefnau amddiffyn plant a pholisi chwythu'r chwiban yr NSPCC.
- Mae asesiad risg llawn yn cael ei wneud ar gyfer ein holl ddigwyddiadau.
- Rydyn ni'n gofyn am fanylion yswiriant unrhyw leoliadau allanol rydyn ni'n eu defnyddio, ac yn eu gwirio.